# Canllawiau ar gyfer Adnabod a Mynd i'r afael â Chyfranogiad Anghymwys y Cyhoedd mewn Ymchwil Iechyd a Gofal.

## Contents


Cyflwyniad ..... 2

Beth rydym yn ei olygu wrth gyfranogiad anghymwys y cyhoedd? ..... 2

Sut i adnabod cyfranogiad anghymwys posibl ..... 3

Cyfranogiad dilys ..... 4

Diduedd ..... 4

Terfynu ..... 4

Datrysiad ..... 4

Cydweithio ..... 4

Cymhellion amgen ..... 5

Diogelu rhag cyfranogiad anghymwys ..... 5

Casgliad ..... 7

## Cyflwyniad

Mae cyfranogiad pobl a chymunedau mewn ymchwil iechyd a gofal yn bwysig ac i'w ddisgwyl, ac mae'n bosibl ym mhob math o ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyfranogiad rhagorol y cyhoedd yn rhan annatod o ddylunio a chynnal ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol a dangoswyd ei fod yn gwella ei ansawdd a'i effaith.

Y rhan fwyaf o'r amser, mae cyfranogi mewn ymchwil iechyd a gofal yn brofiad cadarnhaol a chynhyrchiol i bawb dan sylw, ond weithiau gellir dod ar draws problemau. O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd y problemau hyn yn tanseilio buddion cyfranogiad. Mae cyfranogiad anghymwys y cyhoedd (gweler y diffiniad isod) yn un o'r problemau. Gall arwain at gyfranogiad is-optimaidd neu aneffeithiol, niweidio ymddiriedaeth mewn cyfranogiad cyhoeddus, a pheryglu uniondeb ymchwil.

Gofynnwyd am y ddogfen ganllaw hon gan dimau ymchwil, arweinwyr cynnwys y cyhoedd a chyfranwyr cyhoeddus, sydd wedi dod ar draws achosion o gyfranogiad anghymwys. Crëwyd y canllawiau hyn gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac fe'i cymeradwyir gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd, Swyddfa'r Prif Wyddonydd ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon.

Mae'r canllawiau'n rhoi rhai enghreifftiau o sut y gallech sylwi ar gyfranogiad anghymwys posibl, a sut y gallech fynd i'r afael ag ef. Mae hefyd yn rhoi rhai awgrymiadau ar sut y gallwch chi ddiogelu yn well rhag y risg o gyfranogiad anghymwys yn y lle cyntaf.

## Beth rydym yn ei olygu wrth gyfranogiad anghymwys y cyhoedd?

Cyfranogiad anghymwys y cyhoedd yw pan fydd unigolion yn cymryd rhan mewn llunio, cyflwyno neu ddefnyddio ymchwil ond nid yw eu profiad bywyd, eu gwybodaeth na'u sgiliau yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer y cyfranogiad hwn (gofynion cymhwysedd).

Rhoddir gofynion cymhwysedd ar waith i helpu i sicrhau y bydd y cyfranogiad yn effeithiol ac yn ystyrlon i bob parti, gan wneud y cyfraniad gorau posibl at ansawdd, perthnasedd ac effaith ymchwil. Gall gofynion cymhwysedd amrywio yn ôl natur yr ymchwil a'r adnoddau (amser/arian) sydd ar gael i hwyluso'r broses o gymryd rhan. Efallai y byddan nhw'n cynnwys pethau fel bod a phrofiad bywyd o gyflwr penodol, fel y gellir llunio'r ymchwil trwy ddealltwriaeth o sut mae'r cyflwr yn effeithio ar y rhai sy'n byw ag ef a/neu eu gofalwyr. Gallent gynnwys y gallu i ddefnyddio cyfrifiadur ar gyfer galwadau fideo, fel y gellir cymryd rhan effeithiol ar-lein.

Gall cyfranogiad anghymwys godi am amryw o resymau, y byddwn yn cyfeirio atynt fel camddealltwriaeth neu gamliwiad at ddibenion adnabod y gwahaniaethau a phenderfynu ar gamau priodol.

Mae camddealltwriaeth yn golygu bod unigolyn yn ceisio cyfranogi neu'n cyfranogi oherwydd nad oedd y gofynion cymhwysedd yn glir neu nad oeddynt wedi'u deall yn iawn. Er enghraifft, lle nad oedd proses effeithiol i alluogi partïon i ddeall yr hyn oedd ei angen neu'r hyn a ddisgwyliwyd ymlaen llaw. Neu, pan oedd cyfathrebu ynghylch hyn yn aneffeithiol, er enghraifft, oherwydd rhwystr iaith neu anabledd dysgu.

Mae camliwio'n digwydd pan fydd unigolyn yn ceisio cyfranogi neu'n cyfranogi ar ôl camliwio ei addasrwydd. Er enghraifft, datgan bod ganddo brofiad bywyd o gyflwr penodol pan nad yw hynny'n wir, methu datgelu nad yw hynny'n wir, neu osgoi cwestiynau/cyfleoedd i wneud hynny'n glir. Gall hyn gael ei ysgogi gan fudd personol. Er enghraifft, y cynnig o gymhelliant ariannol (e.e. taleb) i gymryd rhan.

Mae'n bwysig peidio â rhagfarnu'r rhesymau dros gyfranogiad anghymwys, p'un a yw hyn oherwydd camddealltwriaeth neu gamliwio. Ym mhob achos, mae angen ymdrin â'r sefyllfa mewn ffordd sensitif, deg a pharchus. Pan na chaiff ei drin fel hyn, gall arwain at wrthdaro neu ofid emosiynol a gwaethygiad diangen, sy'n arwain at ganlyniadau negyddol i'r rhai sy'n gysylltiedig, y tîm ehangach neu'r ymchwil.

## Sut i adnabod cyfranogiad anghymwys posibl

O'n trafodaethau gyda nifer o dimau ymchwil a chyfranwyr cyhoeddus hyd yn hyn, mae sawl arwydd rhybudd posibl o gyfranogiad anghymwys wedi'u nodi. Gall y rhain amlygu yn ystod y cyfnod ymgysylltu/cynefino, neu yn ystod y gweithgareddau sy'n dilyn.

Gall arwyddion o gyfranogiad anghymwys ymddangos yn debyg i arwyddion ynghylch materion eraill (fel anghenion cymorth), felly mae'n bwysig ystyried ac ymchwilio i'r holl bosibiliadau cyn dod i gasgliadau.

Mae rhai arwyddion rhybudd cyffredin yn cynnwys:

- Deialu 'Sgrin Wag': Unigolion sy'n gwrthod cyfarfod, neu’n osgoi cyfarfod, wyneb yn wyneb ar-lein/yn bersonol yn y cyfnod ymgysylltu/cynefino. Neu, sy'n deialu'n gyson i gyfarfodydd wedi hynny ond byth yn cymryd rhan. Yn aml mae rhesymau dilys dros yr ymddygiad hwn; er enghraifft, yr angen am addasiadau anabledd i allu cymryd rhan, cadeirio nad yw'n cynnwys pawb, materion o hyder neu esboniad meddygol. Fel arall, gallai'r ymddygiad hwn fod yn arwydd o gyfranogiad anghymwys.
- Anghysondebau yn yr wybodaeth y mae unigolion yn ei darparu amdanynt eu hunain. Gallai hyn fod yn wahaniaethau amlwg yn eu defnydd o iaith, y sgiliau neu'r profiadau y maen nhw'n eu disgrifio ar ffurflen mynegi diddordeb, o'i gymharu â'r hyn a ddywedir mewn cyfarfod.
- Bod yn anfodlon neu'n methu disgrifio profiad o gyflwr, neu’n defnyddio termau meddygol/academaidd annisgwyl (yn enwedig y tu allan i'w cyd-destun), lle mae bod â chyflwr penodol yn ofyniad cymhwysedd.
- Defnyddio iaith (yn enwedig yn ysgrifenedig) sy'n swnio’n debycach i iaith mewn gwerslyfr, a/neu sydd heb ei bersonoli wrth ddisgrifio eu profiadau neu eu gwybodaeth am eu cyflwr, er enghraifft. Gallai hyn awgrymu nad yw rhywun yn siarad o'i brofiad ei hun, ond yn hytrach yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd ar-lein/trwy offer AI.
- Hawlio taliadau cyfranogi, treuliau neu gymhellion eraill, ar gyfer gweithgareddau pan fo’n amlwg nad ydynt wedi mynychu/cymryd rhan ynddynt.
- Diffyg diddordeb: Gallai hyn ddigwydd oherwydd ddiffyg cyfranogiad mewn trafodaethau, peidio â chwblhau tasgau penodedig, neu fod yn absennol yn aml o gyfarfodydd. Gallai fod rhesymau dilys dros yr ymddygiad hwn - e.e. yr angen am gymorth/rhesymau yn ymwneud ag iechyd, llythrennedd digidol, neu broblemau cysylltedd
- Ar gyfer ymchwil yn y DU, arwyddion o beidio â bod yn gyfarwydd â'r DU neu iechyd a gofal yn y DU, defnyddio rhifau ffôn tramor a neu’n methu/amharod i roi cyfeiriad yn y DU.
- Amharodrwydd i ddarparu manylion banc ar gyfer trosglwyddo taliadau cyfranogiad, a/neu ddatgan yn gryf eu bod yn ffafrio cymhellion E-dalebau i ymuno â gweithgareddau cyfranogi.

Gall adnabod yr arwyddion a'r ymddygiadau hyn yn gynnar helpu i atal problemau cyn iddynt gynyddu a sicrhau uniondeb cyfranogiad y cyhoedd. Mae'n bwysig ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath gydag empathi a dealltwriaeth, gan y gallai fod rhesymau sylfaenol rhesymol. Gall cyfathrebu agored, disgwyliadau clir a pharch gan y naill at y llall fynd yn bell o ran datrys problemau o'r fath.

## Sut i fynd i'r afael â chyfranogiad anghymwys posibl?

Mae'n bwysig gweithredu'n brydlon pan fyddwch yn sylwi ar arwyddion posibl o gyfranogiad anghymwys.

Efallai y bydd eich dull gweithredu yn wahanol yn dibynnu ar ba gam y daw'r mater i'r amlwg, ac o ystyried y perthnasoedd sydd wedi'u ffurfio. Dylai eich dull gweithredu gael ei arwain gan unrhyw ddisgrifiadau o rôl neu fanylebau y cytunwyd arnynt gyda'r unigolyn/unigolion, unrhyw bolisïau neu brosesau sefydliadol perthnasol (e.e. ar gyfer gwirfoddoli, amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb, datrys gwrthdaro), a/neu bolisïau/prosesau cyfranogiad sefydledig sydd gennych ar waith.

Mae ymdrin â chyfranogiad anghymwys a amheuir yn gofyn am ddull gofalus sy'n blaenoriaethu sensitifrwydd a thryloywder. Dyma rai awgrymiadau gan eraill sydd wedi nodi a mynd i'r afael â materion anghymwys.

## Cyfranogiad dilys

Dylech bob amser gymryd yn ganiataol yn gyntaf bod y cyfranogiad yn ddilys ond ei fod yn profi problemau. Cysylltwch â'r person (lle bynnag y bo'n bosibl, wyneb yn wyneb) i weld beth oedd yr anawsterau.

## Diduedd

Mewn unrhyw gyfarfod, ceisiwch aros yn niwtral o ran tôn a chanolbwyntio ar ddisgrifio'r ymddygiadau, gweithredoedd neu'r gweithredoedd nad ydynt yn gweithredu a sylwir, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y cyfranogiad. Anogwch yr unigolyn i ymgysylltu a chynnig ei bersbectif ar yr hyn sy'n digwydd a pham, gan ddefnyddio cwestiynau agored. Crynhoi'r pwyntiau allweddol ar ddiwedd y cyfarfod, gan gynnwys y camau nesaf ac unrhyw gamau gweithredu ar gyfer y naill barti neu'r llall a'r amserlen y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ynddi. Gall fod yn bosibl, neu beidio, sefydlu a yw cyfranogiad yn gymwys ar yr adeg hon.

## Terfynu

Pan sefydlir yn glir nad yw cyfranogiad yn gymwys yn sgil camliwio, a bod hyn wedi'i drafod gyda'r unigolyn/unigolion (wyneb yn wyneb fel arfer), fe'ch cynghorir i derfynu'r cyfranogiad, gan roi crynodeb o'r hyn a drafodwyd gennych a'r rheswm dros y penderfyniad i ddod â'r cyfranogiad i ben, yn ysgrifenedig. Ystyriwch y gwersi a ddysgwyd ar gyfer cyfranogiad yn y dyfodol, ac a oes unrhyw gamau y gallwch eu cymryd i atal problemau yn y dyfodol.

## Datrysiad

Pan sefydlir yn glir nad yw cyfranogiad yn gymwys yn sgil camddealltwriaeth, a bod hyn wedi'i drafod gyda'r unigolyn/unigolion (wyneb yn wyneb fel arfer), mae'n bwysig cydnabod unrhyw faterion cyfathrebu neu ddealltwriaeth sydd wedi arwain at y sefyllfa, ceisiwch osgoi ensynio bai ac ystyried a chymhwyso gwersi a ddysgwyd ar gyfer cyfranogiad yn y dyfodol. Fe'ch cynghorir i derfynu'r cyfranogiad, gan ddarparu crynodeb o'r hyn a drafodwyd gennych a'r rhesymau dros y penderfyniad i ddod â'r cyfranogiad i ben, yn ysgrifenedig. Ystyriwch roi cymorth neu gyngor i'r unigolyn i'w helpu i ddod o hyd i gyfleoedd addas eraill i gyfranogi os ydynt eisiau hyn.

## Cydweithio

Pan sefydlir yn glir bod y cyfranogiad yn gymwys, mae'n bwysig deall y rhesymau y tu ôl i'r problemau a brofir, a cheisio mynd i'r afael â'r rhain mewn ffordd gydweithredol gyda'r unigolyn dan sylw. Dylid gwneud hyn yn unol ag unrhyw bolisïau neu brosesau sefydliadol perthnasol presennol. Fe'ch cynghorir i gadarnhau unrhyw gytundeb yn ysgrifenedig. Efallai yr hoffech gyfeirio at ddogfen ganllaw berthnasol arall, megis, Gweithdrefnau datrys problemau, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Lle nodir anghenion cymorth ychwanegol, e.e. anawsterau wrth gyfrannu at grŵp oherwydd anabledd,

ystyriwch a ellid gwneud addasiadau, megis eu galluogi i gyfrannu'n annibynnol ar ôl y grŵp mewn cyfarfod un i un.

### Cymhellion amgen

Ystyriwch a all dulliau eraill o gymell neu daliadau eich helpu i leihau'r risg o gyfranogiad anghymwys. Dewisiadau amgen. Er enghraifft, gall cynnig talebau sy'n cael eu postio i gyfeiriad cartref, yn hytrach na thalebau ar-lein, atal y rhai sy'n anghymwys oherwydd eu bod yn byw y tu allan i'r DU rhag cymryd rhan. Os ydych yn mynnu bod taliadau cyfranogiad yn cael eu gwneud drwy drosglwyddiad banc i gyfrif banc yn y DU, neu drwy grŵp cymunedol neu elusen a gyfansoddwyd, gall hyn helpu i liniaru risgiau.

Cofiwch, y prif amcan yw sefydlu amgylchedd teg a chynhwysol ar gyfer pob cyfranogiad cymwys. Gall ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn gyda sensitifrwydd a pharch helpu i gynnal eich didwylledd a'ch hygrededd ac yn yr un modd didwylledd a hygrededd eich sefydliadau, a'ch cyllidwyr.

## Diogelu rhag cyfranogiad anghymwys

Y ffordd orau o ddiogelu rhag cyfranogiad anghymwys yw trwy brosesau ymgysylltu a chynefino trylwyr ac effeithiol, ynghyd â chyfathrebu agored a gonest parhaus (gan gynnwys wyneb yn wyneb). Bydd hyn yn sicrhau bod y bobl gywir yn cymryd rhan/yn parhau i gymryd rhan am y rhesymau cywir a bod gan bawb gyd-ddealltwriaeth, a'u bod yn gallu cyflawni disgwyliadau'r ddeutu ynghylch y cyfranogiad arfaethedig. Nodir y meysydd allweddol i'w hystyried isod:

1. Diffinio'r swyddogaeth:

Mae'n bwysig bod natur, cwmpas, amserlen a gofynion unrhyw swyddogaeth gyfranogi yn glir ymlaen llaw, ar gyfer pob parti, ac wedi'u trafod ar y cyd i gadarnhau dealltwriaeth yr holl bartïon yn ystod prosesau ymgysylltu a chynefino. Argymhellir bod yna ddisgrifiad o'r swyddogaeth, a manyleb person (gan gynnwys ymddygiadau disgwyliedig) ar waith o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r gofynion cymhwysedd ar gyfer cymryd rhan fod yn glir fel rhan o hwn. Dylai'r holl ofynion fod yn gymesur â'r cyfranogiad, a dylid ystyried unrhyw oblygiadau posibl a allai fod ganddynt i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

2. Prosesau ymgysylltu a chynefino effeithiol:

Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw broses ymgysylltu yn caniatáu asesiad a phroses ddilysu trylwyr ond cymesur i gadarnhau addasrwydd ymgeiswyr o'i gymharu â'r gofynion, gan gynnwys y rhai sydd â'r wybodaeth a'r profiad gorau i wneud hyn. Argymhellir cael proses ddethol glir, gyda'r meini prawf yn cysylltu â'r meini prawf cymhwysedd, ar waith. Fel arfer, dylai proses ddethol gynnwys elfen wyneb yn wyneb. Er enghraifft, gallech gyfuno ffurflen mynegi diddordeb i gyfranogi ar-lein a adolygir gan arweinydd cyfranogiad y cyhoedd, gyda chyfarfod wyneb yn wyneb (yn bersonol neu ar-lein) rhwng yr unigolyn ac ymchwilydd a fyddai'n ddigon gwybodus am brofiad unigolyn o gyflwr i ofyn y cwestiynau cywir a chadarnhau ei addasrwydd.

Yn ystod y cyfnod cynefino, argymhellir y dylid egluro'n ffurfiol ddisgwyliadau'r ddeutu, a rhoi gweithgareddau cynefino ar waith sy'n galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan, ymchwilwyr a/neu arweinwyr cyfranogi er mwyn iddynt ddod i adnabod ei gilydd yn well. Dylid ystyried a oes angen gwneud addasiadau i hwyluso cyfathrebu a dealltwriaeth, yn unol â pholisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sefydliadol/cyllidwr perthnasol.

3. Buddsoddiad parhaus mewn perthnasoedd a chyfathrebu da

Cydnabyddir yn eang fod cyfranogiad effeithiol yn cael ei ategu gan berthnasoedd llwyddiannus ac mae hyn yn cael ei helpu gan gyfathrebu gonest ac agored parhaus sy'n helpu i feithrin ymddiriedaeth. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus o amser a dylai bob amser fod yn broses ddwyffordd/amlffordd. Argymhellir bod cytundeb rhwng pob parti ynghylch natur, amlder a'r math o gyfathrebu parhaus, a bod hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pob parti.

Mae cyfathrebu agored a rheolaidd yn helpu i ddeall gwir gymhellion a phryderon unigolion sy'n cyfranogi mewn ymchwil yn well. Mae'n darparu llwyfan i unigolion leisio unrhyw bryderon, gan atal camddealltwriaeth, gwrthdaro neu waethygu problemau posibl. Mae hefyd yn hyrwyddo ymgysylltu gweithredol, gan arwain at ymrwymiad cryfach i lwyddiant y grŵp. Mae cyfathrebu effeithiol yn stryd ddwyffordd - mae mor bwysig gwrando ac ymateb i adborth ag ydyw i ddarparu gwybodaeth. Am wybodaeth ychwanegol am feithrin cyfathrebu effeithiol â'r cyhoedd, cyfeiriwch at Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd.

4. Polisïau a phrosesau cyfredol sy'n ymwneud â'r daith gyfranogi.

Mae cynnal polisïau a phrosesau cyfredol sy'n amlinellu'r daith gyfranogi yn hanfodol er mwyn atal cyfranogiad anghymwys. Dylai'r canllawiau gynnwys fframwaith clir i'r holl randdeiliaid ei ddilyn. Bydd adolygu a diweddaru'r polisïau hyn yn rheolaidd yn galluogi sefydliadau i addasu i sefyllfaoedd sy'n newid, rhagweld risgiau, a gorfodi rheolaethau yn erbyn problemau fel gwrthdaro buddiannau, twyll, neu gyfranogiad anghymwys. Mae polisïau clir a diweddar hefyd yn gwella tryloywder, atebolrwydd a chysondeb, sy'n cryfhau ymddiriedaeth ac yn lleihau'r siawns o gamddealltwriaeth neu gamymddwyn.

5. Hyfforddiant a gweithdai rheolaidd ar gyfer staff a chyfranwyr cyhoeddus

Mae hyfforddiant a gweithdai rheolaidd ar gyfathrebu effeithiol a datrys gwrthdaro yn arbennig o hanfodol wrth reoli gwahanol sefyllfaoedd mewn unrhyw amgylchedd. Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi'r offer a'r technegau angenrheidiol er mwyn i staff a chyfranwyr cyhoeddus lywio drwy ddeinameg rhyngbersonol cymhleth, datrys gwrthdaro yn gyfeillgar, a chyfathrebu'n effeithiol.

Mae sgiliau cyfathrebu effeithiol yn hanfodol ar gyfer meithrin perthnasoedd cryf, gwella gwaith tîm, a sicrhau eglurder wrth gyfleu syniadau a gwybodaeth. Yn yr un modd, mae sgiliau datrys gwrthdaro yn grymuso unigolion i fynd i'r afael ag anghytundebau yn adeiladol, dod o hyd i atebion buddiol i'r ddwy ochr, a chynnal amgylchedd gwaith cadarnhaol.

I gael hyfforddiant ac arweiniad cynhwysfawr a chyfredol ar gynnwys y cyhoedd, ystyriwch ymweld â gwefan Learning For Involvement. Mae'r llwyfan hwn wedi ymroi i wella dysgu a datblygu er mwyn cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi cipolwg ar ei arwyddocâd a sut i'w weithredu'n effeithiol.

Mae'r cynnydd mewn cyfranogiad ar-lein yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dod â nifer o fanteision. Fodd bynnag, gall hefyd greu llwybrau newydd ar gyfer cyfranogiad cyhoeddus anghymwys. Er mwyn atal hyn, dylid archwilio amryw o fesurau ychwanegol.

- Recriwtio wedi'i Dargedu: Trwy anelu hysbysebion ar-lein at grwpiau, sefydliadau a sgiliau penodol, gallwn gyrraedd y gynulleidfa gyfranogi a ddymunir yn fwy effeithiol. Gall gweithio ar y cyd â grwpiau cymunedol neu arweinwyr cymunedol eich helpu i gyrraedd cynulleidfa

fwy amrywiol a chymwys. Efallai y byddwch yn penderfynu peidio â hysbysebu unrhyw gymhellion ariannol ar gyfryngau cymdeithasol.

- Cofnodi Cyfeiriadau IP, os yn bosibl: Gall defnyddio holiaduron sgrinio ar-lein sy'n cofnodi cyfeiriadau IP helpu i atal ymatebion lluosog o'r un cyfeiriad IP. Pan fydd datganiad o ddiddordeb yn cael ei gyflwyno, gallwch ganfod lleoliad daearyddol yr ymatebydd.
- Dileu Botymau 'Nôl' ar Geisiadau: Gall dileu botymau 'Nôl' ar holiaduron sgrinio atal ymatebwyr rhag newid eu hatebion blaenorol, gan ei gwneud yn anoddach i unigolion ymgeisio ar hap a thro ar ôl tro.

## Casgliad

Mae cynnal hygrededd gweithgareddau ac astudiaethau ymchwil cyfranogiad y cyhoedd yn gofyn am gamau rhagweithiol i nodi a mynd i'r afael â chyfranogiad anghymwys. Mae'r cam cychwynnol yn cynnwys adnabod ac ymchwilio i arwyddion o gyfranogiad anghymwys. Mae angen ymdrin â chyfranogiad anghymwys ar ôl iddo ddigwydd mewn modd sensitif, heb farnu cymhellion ymlaen llaw, a dylid ymchwilio'n briodol cyn i'r cyfranogiad ddod i ben. Mae'n bwysig osgoi camgymryd cyfranogiad anghymwys am faterion eraill a allai fod yn amharu ar gyfranogi'n effeithiol, ac ymdrin â'r rhain yn briodol. Yn olaf, mae yna lawer o ffyrdd o gynyddu mesurau diogelu rhag y risg o gyfranogiad anghymwys, sef sicrhau bod y polisïau a'r prosesau cywir ar waith, a sicrhau bod arferion da yn cael eu dilyn wrth hysbysebu a dewis rhai i gyfranogi.

## Cydnabyddiaethau

Cyd-awdurwyd y ddogfen ganllaw hon gan staff o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, a CSO.

Mae'r gwaith hwn wedi'i gefnogi gan weithgor o gyfranwyr cyhoeddus, staff cynnwys, ymchwilwyr, a staff AD.